# DATGANIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

## Y CYNNIG I FFEDEREIDDIO

# Ysgol Gymunedol Trimsaran

ac

# Ysgol Gymraeg Ffwrnes

*o'r 5ed o Ionawr 2026 ymlaen*

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Teitl y Cynnig:** Ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes

**Dyddiad:** Gorffennaf 2025

**Cyfnod Ymgynghori:** 05/09/2025 – 17/10/2025

**Dyddiad Gweithredu (arfaethedig):** 05/01/2026

## 1. Pwrpas y Polisi/Cynnig

Ffedereiddio dwy ysgol o dan un corff llywodraethu, gan gynnal hunaniaethau, cyllidebau a safleoedd ar wahân, ond rhannu arweinyddiaeth a llywodraethu i wella deilliannau addysgol a chynaliadwyedd.

## 2. Pwy fydd yn cael ei effeithio?

Rhieni a disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Ffwrnes
Staff Ysgol Ffwrnes
Corff Llywodraethu Ysgol Ffwrnes
Darpar ddisgyblion Ysgol Ffwrnes

Rhieni a disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Trimsaran
Staff Ysgol Trimsaran
Corff Llywodraethu Ysgol Trimsaran
Darpar ddisgyblion Ysgol Trimsaran

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn asesu effaith bosibl ar y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

**3. Crynodeb o'r Effaith**

| **Nodwedd Warchodedig** | **Effaith Gadarnhaol** | **Effaith Negyddol** | **Cam Gweithredu Lliniarol** |
|---|---|---|---|
| Oedran (disgyblion, staff) | Cyfleoedd dysgu ehangach ar draws ysgolion a chyfnodau. Gall gweithgareddau ar y cyd wella datblygiad cymdeithasol. | Dim wedi'i nodi | Sicrhau cefnogaeth sy'n briodol i oedran mewn mentrau traws-ysgolion. |
| Anabledd | Cymorth presennol yn parhau ar y safle. Polisïau a strwythurau cymorth yn parhau i fod yn lleol. | Gallai teithio rhwng safleoedd (ar gyfer gweithgareddau ar y cyd) beri rhwystrau mynediad. | Bydd gweithgareddau sy'n cynnwys symud rhwng ysgolion yn ystyried hygyrchedd. |
| Ailbennu Rhywedd | Niwtral. Disgwylir i arferion cynhwysol barhau. | Dim wedi'i nodi | Cynnal polisïau gwrth-fwlio a chynhwysiant cadarn. |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Niwtral. | Dim wedi'i nodi | Ddim yn berthnasol |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Gall cyfleoedd staffio hyblyg drwy'r Ffederasiwn gefnogi staff sy'n dychwelyd. | Dim wedi'i nodi | Cynnal cymorth AD presennol a gweithdrefnau mamolaeth. |
| Hil | Ysgolion yn cadw hunaniaeth ac ethos unigol; treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol wedi'i chadw. | Risg o dangynrychiolaeth mewn llywodraethu. | Monitro cynrychiolaeth yn y corff llywodraethu ffederal. |
| Crefydd neu Gred | Ysgolion yn cynnal eu hethos; dim newid i bolisïau na'r cwricwlwm. | Dim wedi'i nodi | Parhau i barchu credoau ac arferion amrywiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw | Cyfleoedd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar draws y ddwy ysgol. | Dim wedi'i nodi | Sicrhau mynediad cyfartal i arweinyddiaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer pob rhyw. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Niwtral. Disgwylir i ysgolion gynnal ethos cynhwysol. | Dim wedi'i nodi | Parhau ag arferion cwricwlwm cynhwysol a gwrth-wahaniaethu. |

**4. Ymgysylltu ac Ymgynghori**

- Mae'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys:
- Disgyblion (drwy Gynghorau Ysgol)
- Rhieni a Gofalwyr
- Staff Ysgol
- Cyrff Llywodraethu
- Awdurdod Lleol
- Undebau Llafur

Crëwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant i gefnogi ymgysylltu â disgyblion. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r holl grwpiau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**5. Lliniaru a Monitro**

- Bydd hygyrchedd a chynhwysiant yn eitem sefydlog wrth gynllunio gweithredu.
- Bydd Corff Llywodraethu Ffederal yn cael ei annog i adlewyrchu amrywiaeth y gymuned.
- Monitro canlyniadau disgyblion a staff yn barhaus ar draws y ddwy ysgol ar ôl ffedereiddio.
- Hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w adnewyddu ar gyfer y corff llywodraethu newydd.

**6. Casgliad**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi ar gyfer unrhyw grŵp gwarchodedig. Mae'r cynnig i ffedereiddio yn cefnogi gwell arferion cydweithio ac effeithlonrwydd heb newid hunaniaethau penodol, cyfrwng iaith, neu brosesau derbyn y naill ysgol neu'r llall. Lle mae mân risgiau yn bodoli (e.e.,hygyrchedd), bydd addasiadau rhesymol a chynllunio yn lliniaru rhwystrau posibl.

**7. Penderfyniad**

Bwrw ymlaen â'r cynnig gyda chamau gweithredu i fonitro deilliannau cydraddoldeb a sicrhau gweithrediad cynhwysol.

Llofnod: ______________________

Y Cynghorydd Kim Broom
Cadeirydd y Llywodraethwyr,
Ysgol Gymunedol Trimsaran

Dyddiad: 04.07.2025

Llofnod: ______________________

Mrs Sarah Owens
Cadeirydd y Llywodraethwyr,
Ysgol Gymraeg Ffwrnes

Dyddiad: 04.07.2025